

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol Nos Fawrth y 12ed o Hydref 2010.

Yn bresennol oedd y Cynghorwyr: Dafydd Glyn Owen (Cadair), Harry Wyn Owen, Sharon Wynne Jones – Talysarn; Elwyn Jones Griffith, Dyfed Edwards (Cyngh Sir), Ifan Glyn Jones, Barry Bracegirdle – Penygroes; T Les Jones – Nantlle; Gwyndaf Roberts – Llanllyfni; Eurig Wyn Evans – Nebo.

Derbyniwyd cwyn bod ysbwriel yn y layby ar ol pasio Cae Ty Draw, Llanllyfni eto. Byddwn yn ysgrifennu eto at Gyngor Gwynedd i gwyno am y parcio tu allan i'r Co-op ym Mhenygroes, a gofyn tybed os oes modd defnyddio camera cctv ar sgwar Penygroes i'r perwyl o erlyn pobl sydd yn parcio yn anghyfreithlon.

Cynllunio

Derbyniwyd cais Plot 3B Hen Iard Adeiladwyr, Ffordd Clynnog, Penygroes – amrywio amod 2 o ganiatad cynllunio er mwyn newid dyluniad plot 3B yn unig. Roedd y Cyngor yn cymeradwyo. Caniatawyd rhoi estyniad cefn deulawr i'r ty presennol i greu anecs yn Tan Drwfwl, Nasareth.

Gohebiaeth

Cyngor Gwynedd

*Deddf Trwyddedu – Cais am drwydded Cynwyd, Baptist Street, Penygroes. Roedd pryder y byddai yn ychwanegu at broblemau parcio, gan bod yr oriau rhwng 9.00 y bore at 10.00 y nos.

*Deddf Trwyddedu – Cais am drwydded Canolfan Talysarn. Bydd y Cynghorwyr yn gwneud ymholiadau lleol ac adrodd yn ol. Pryder y Cynghorwyr yw bod trigolion yn byw yn agos iawn, a bod hanner nos yn hwyr ofnadwy.

*Ffordd yr Eglwys, Talysarn – derbyniwyd llythyr yn cadarnhau y byddai'r wal ar Ffordd yr Eglwys yn cael ei thrwsio.

*Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Cymuned Llandwrog yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor i gadw Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd ar agor. Byddwn yn ysgrifennu at Alun Ffred Jones a Hywel Williams i gefnogi. Roedd y Cynghorwyr yn credu ei bod yn bwysig iawn dangos bod y Cyngor hwn eisiau diogelu dyfodol y gwasanaeth yn yr ysbyty. Hefyd, byddwn yn holi sut y mae aelodau yn cael eu penodi ar y byrddau iechyd.

Adroddiadau Pentrefi.

Roedd cwynion yn cael eu derbyn o hyd am y gwasanaeth ailgylchu – bod llanast ar eu holau ym mhentrefi'r Dyffryn. Byddwn yn cysylltu gyda Steffan Jones yng Nghyngor Gwynedd i gwyno unwaith eto. Byddwn yn tynnu sylw unwaith eto at flerwch y gweithwyr.

Ffensio Cae Cwting. Penderfynwyd bwrw ymlaen i wneud y gwaith i adnewyddu'r ffens

Ffiniau Ethoath. Rhoddodd Dyfed Edwards grynoded i'r Cynghorwyr am y newidiadau arfaethedig. Byddwn yn trafod yn llawn yng nghyfarfod nesaf y Cyngor wedi i'r Cynghorwyr gael cyfle i ddarllen yr wybodaeth.

Cors y Llyn, Nebo. Roedd Ysgol Nebo wedi gofyn am gefnogaeth y Cyngor i wneud cais am grant i uwchraddio'r llwybr drwy Gors y Llyn. Maent yn awyddus ail agor y llwybr a rhoi gwybodaeth am blanhigion ac yn y blaen yno, a meinciau. Roedd y Cyngor yn argymhell i'r ysgol gysylltu gyda Gerallt Jones, Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd rhag blaen i roi ei farn ar y cynllun.

Cystadleuaeth Arddio: Roedd nifer ymgeiswyr yr adran tai preifat yn hynod siomedig, a mae hyn wedi codi marc cwestiwn at ddyfodol y gystadleuaeth. Byddwn yn rhoi eitem ar agenda fis Ionawr i gael trafod ymhellach. Diolchwyd Elwyn am dywys y beirniaid o gwmpas unwaith eto eleni.

Penderfynwyd na fyddai'r Cyngor yn cynnal cystadleuaeth oleuadau Nadolig eleni oherwydd yr hinsawdd economaidd a rhesymau amgylcheddol.

Materion yn ymwneud a'r heddlu. Yn gyffredinol, mae pryderon am y gwasanaeth yr ydym yn ei dderbyn yn y dyffryn. Ni fyddai'r Cyngor eisiau gweld colli swyddogion sydd yn gwasanaethu'r dyffryn. Byddwn yn gwahodd aelod o'r awdurdod heddlu i gyfarfod y cyngor i drafod cynlluniau'r heddlu ar wasanaethau lleol. Byddwn yn holi beth fydd y toriadau, a sut y bydd yr heddlu yn ymateb i unrhyw doriadau. Roedd pryder am or-yrru ar y ffordd osgoi o gyfeiriad Caernarfon i Porthmadog, ac hefyd pryder am or-yrru drwy Nantlle.